**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol**
—
**Culture, Communications, Welsh Language, Sport, and International Relations Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDiwylliant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDiwylliant
0300 200 6565
—
**Senedd Cymru**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCulture@senedd.wales
senedd.wales/SeneddCulture
0300 200 6565

Y Gwir Anrhydeddus Elin Jones AS,
Y Llywydd
Cadeirydd y Pwyllgor Busnes

13 Mehefin 2024

## Cylchoedd gwaith y Pwyllgorau

Annwyl Lywydd,

Ysgrifennaf mewn ymateb i lythyr y Pwyllgor Busnes dyddiedig 22 Mai 2024, yn ymwneud â chylchoedd gwaith y Pwyllgorau. Rwy’n ddiolchgar am y cyfle i rannu barn y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol (“y Pwyllgor”) am y mater hwn.

Mae'r Pwyllgor yn deall y rhesymeg dros y newidiadau arfaethedig fel y'u hamlinellwyd gan Bwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith. Fodd bynnag, nid yw ein Pwyllgor yn teimlo bod angen gwneud unrhyw newidiadau i’n cylch gwaith ni, gan nad yw’r ailddosbarthiad o gyfrifoldebau Gweinidogion yn effeithio arno i’r un graddau.

Ni nodwyd ond un newid sy’n effeithio ar gylch gwaith y Pwyllgor - sef y ffaith bod cyfrifoldeb am y diwydiannau creadigol wedi’i drosglwyddo o’r portffolio polisi diwylliant a’r celfyddydau ehangach i’r Gweinidog Partneriaeth Gymdeithasol. Er nad yw’n hollol glir i’r Pwyllgor pam mae’r Llywodraeth Cymru wedi gwneud y newid hwn, nid yw mor arwyddocaol ag i effeithio ar allu’r Pwyllgor i graffu’n effeithiol ar benderfyniadau’r Llywodraeth.

Mae'r cylch gwaith presennol yn caniatáu i'r Pwyllgor edrych ar luosogrwydd materion rhyng-gysylltiedig ar draws gwahanol sectorau, a byddai unrhyw newid sylweddol i hynny yn amharu ar ddealltwriaeth a gallu'r Pwyllgor i wneud ei waith. Gofynnwn i'n cylch gwaith beidio â chael ei newid.

Yn gywir,

**Delyth Jewell AS**
**Cadeirydd y Pwyllgor**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.